Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Canllawiau ar Reoliadau'r Undeb Ewropeaidd (Asesu Cymesuredd Proffesiynau Rheoleiddiedig) (Cymru) 2020

Canllawiau ar Reoliadau'r Undeb Ewropeaidd (Asesu Cymesuredd Proffesiynau Rheoleiddiedig) 2020

Cynulleidfa
Rheoleiddwyr athrawon (gan gynnwys athrawon addysg bellach) a rhai proffesiynau gofal cymdeithasol yng Nghymru; yn ôl eu trefn, Cyngor y Gweithlu Addysg a Gofal Cymdeithasol Cymru ac unigolion o fewn y proffesiynau hynny.

Trosolwg
Nod y canllawiau hyn yw cefnogi Cyngor y Gweithlu Addysg a Gofal Cymdeithasol Cymru i gynnal asesiadau cymesuredd gan gyfeirio at yr amcanion budd y cyhoedd a nodir yn y Rheoliadau; ar ba sail y gellir ystyried bod mesur yn gymesur ac yn gyfiawn; a'r hyn y dylid ei ystyried wrth asesu cymesuredd.

Y camau y mae angen eu cymryd
Mae'n rhaid i Gyngor y Gweithlu Addysg a Gofal Cymdeithasol Cymru ystyried y ddogfen hon.

Gwybodaeth
Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon i:

Ar gyfer Athrawon
Is-adran Dysgu Proffesiynol, Addysgeg ac Arweinyddiaeth
Adran Addysg

Ar gyfer Gweithwyr Gofal Cymdeithasol
Polisi'r Gweithlu
Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Ffôn: 03000 257095
e-bost:
Ar gyfer athrawon – IsadranAAaDP.PL&PLDivision@gov.wales
Ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol – SS.Workforce.Correspondence@gov.wales

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

ISBN Digidol 978 1 80038 831 4
© Hawlfraint y Goron Gorffennaf 2020
WG40960

Cynnwys

Cyflwyniad **3**
Cefndir **4**
Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol yn Gilyddol (MRPQ) 4
Y Gyfarwyddeb Prawf Cymesuredd 4
Yr Asesiad Cymesuredd **6**
Diffiniad o broffesiwn rheoleiddiedig at ddiben y Rheoliadau 6
Diffiniad o reoleiddwyr a'u rôl 6
Diffiniad o ddarpariaeth reoleiddiol broffesiynol 6
Cwmpas 7
Yr asesiad 8
Amcan Budd y Cyhoedd 8
Amseru 10
Graddau asesiad 10
Gwybodaeth i'r cyhoedd ac ymgynghori 11
Darparu gwasanaethau dros dro ac yn achlysurol 11
Adrodd 11
Gofynion adrodd domestig 11
Hysbysu'r Comisiwn Ewropeaidd 12
Gwybodaeth Ychwanegol **13**
Rhwymedi effeithiol 13
Cyfraith Achosion Ewropeaidd 13
Hyd effeithiol 13
Offerynnau Statudol 13
ATODIAD 1 Templed ar gyfer Adrodd **14**

Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn darparu canllawiau ar Reoliadau'r Undeb Ewropeaidd (Asesu Cymesuredd Proffesiynau Rheoleiddiedig) (Cymru) 2020, y cyfeirir atynt fel "y Rheoliadau".

Mae'r Rheoliadau yn gweithredu Cyfarwyddeb yr UE ar y gofyniad i gynnal asesiad cymesuredd cyn diwygio mesurau sy'n ymwneud â rheoleiddio proffesiynau neu fabwysiadu mesurau newydd[1]. Mae'r Rheoliadau yn darparu fframwaith ar gyfer cynnal asesiadau cymesuredd mewn perthynas â mesurau sy'n cyfyngu ar fynediad i broffesiynau rheoleiddiedig neu ddilyn y proffesiynau hynny. Maent yn ei gwneud yn ofynnol i gynnal asesiad cyn cyflwyno mesur newydd neu ddiwygio mesur sy'n cyfyngu ar fynediad i broffesiwn rheoleiddiedig neu ddilyn y proffesiwn hwnnw, er mwyn cadarnhau bod y mesur newydd yn gymesur â'i nodau ac nad yw'n cyfyngu ar fynediad i'r proffesiwn perthnasol heb fod angen.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i broffesiwn athro neu athrawes (gan gynnwys athro neu athrawes addysg bellach) ac i rai proffesiynau gofal cymdeithasol yng Nghymru. Rheoleiddwyr y proffesiynau hyn yw, yn ôl eu trefn, Cyngor y Gweithlu Addysg a Gofal Cymdeithasol Cymru ("y rheoleiddwyr"). Fel rheoleiddwyr, bydd Cyngor y Gweithlu Addysg a Gofal Cymdeithasol Cymru yn gyfrifol am gynnal asesiadau cymesuredd yng Nghymru ar ran Gweinidogion Cymru.

Mae'r canllawiau hyn yn nodi sut y dylai'r rheoleiddwyr yng Nghymru gynnal asesiad cymesuredd gan gyfeirio at yr amcanion budd y cyhoedd a nodir yn y Rheoliadau; ar ba sail y gellir ystyried bod mesur yn gymesur ac yn gyfiawn; a'r hyn y dylid ei ystyried wrth asesu cymesuredd.

Mae'r canllawiau hyn hefyd yn esbonio'r ffordd y dylai rheoleiddwyr gyflawni eu rhwymedigaethau mewn perthynas â sicrhau bod gwybodaeth ar gael i'r cyhoedd a rhanddeiliaid, ac mewn perthynas ag ymgynghori, ynghyd ag adrodd am rwymedigaethau i'r Comisiwn.

Yn y canllawiau hyn, defnyddir y geiriau 'asesiad' a 'prawf' yn gyfnewidiol.

Mae Llywodraeth y DU wedi gwneud Rheoliadau'r Undeb Ewropeaidd (Asesu Cymesuredd Proffesiynau Rheoleiddiedig) 2020, sy'n ymdrin â'r asesiadau cymesuredd y mae'n rhaid eu cynnal mewn perthynas â phroffesiynau rheoleiddiedig eraill.

[1] Cyfarwyddeb (EU) 2018/958

Cefndir

Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol yn Gilyddol (MRPQ)

Mae Cyfarwyddeb yr UE ynghylch cydnabod cymwysterau proffesiynol[2] ("y Gyfarwyddeb MRPQ") yn darparu fframwaith dwyochrog ar gyfer cydnabod cymwysterau proffesiynol sy'n golygu y gall gwladolion Aelod-wladwriaethau[3] gael cydnabyddiaeth am eu cymwysterau proffesiynol a chael mynediad i broffesiynau rheoleiddiedig mewn Aelod-wladwriaeth heblaw'r un lle cawsant eu cymhwyster.

Mae'r Gyfarwyddeb MRPQ yn cwmpasu'r systemau cydnabod cyffredinol a sectoraidd. Mae'r system gyffredinol wedi cael ei gweithredu yng nghyfraith y DU gan Reoliadau'r Undeb Ewropeaidd (Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol) 2015 ("Rheoliadau 2015")[4]. Mae'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol eisoes wedi cyhoeddi canllawiau ar MRPQ a gellir dod o hyd iddynt yn: https://www.gov.uk/government/publications/mutual-recognition-of-professional-qualifications-guidance-for-regulatory-bodies.

Yn ogystal â'r fframwaith ar gyfer cydnabod, mae'r Gyfarwyddeb MRPQ yn cynnwys rhwymedigaeth i Aelod-wladwriaethau asesu cymesuredd eu gofynion sy'n cyfyngu ar fynediad i broffesiynau rheoleiddiedig neu ddilyn y proffesiynau hynny, a chyfleu canlyniadau'r asesiad hwnnw i'r Comisiwn[5]. Er nad yw'r DU yn Aelod-wladwriaeth o'r UE mwyach, mae'r DU yn dal i fod yn ddarostyngedig i gyfraith yr UE, gan gynnwys y Gyfarwyddeb MRPQ a'r Gyfarwyddeb Prawf Cymesuredd, tan ddiwedd y Cyfnod Pontio.

Y Gyfarwyddeb Prawf Cymesuredd

Mae Cyfarwyddeb (EU) 2018/958 ar brofion cymesuredd ("Y Gyfarwyddeb Prawf Cymesuredd") yn adeiladu ar y rhwymedigaeth gyffredinol i reoleiddio mewn ffordd gymesur o dan Gyfarwyddeb MRPQ ac yn sefydlu fframwaith cyffredin ar gyfer y dull o gynnal asesiadau cymesuredd cyn cyflwyno darpariaethau deddfwriaethol, rheoleiddiol neu weinyddol newydd, neu cyn diwygio darpariaethau deddfwriaethol, rheoleiddiol neu weinyddol presennol, sy'n cyfyngu ar fynediad i broffesiynau rheoleiddiedig, neu ddilyn y proffesiynau hynny.

Diben asesiadau cymesuredd yw osgoi rhoi baich anghymesur ar unigolion sy'n ceisio cael mynediad i broffesiynau rheoleiddiedig. Caiff hyn ei gydbwyso ar y cyd â'r angen i awdurdodau rheoleiddio ddiogelu mynediad i'r proffesiynau. Caiff y Gyfarwyddeb Prawf Cymesuredd ei gweithredu gan y Rheoliadau mewn perthynas â phroffesiynau addysgu a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae'r canllawiau hyn yn berthnasol i'r broses o roi'r Rheoliadau hynny ar waith.

---

[2] Cyfarwyddeb 2005/36/EC ynghylch cydnabod cymwysterau proffesiynol, fel y'i diwygiwyd gan Gyfarwyddeb 2013/55/EU

[3] A gwladolion gwladwriaethau'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a Chymdeithas Masnach Rydd Ewrop (Norwy, Gwlad yr Iâ, Liechtenstein a'r Swistir)

[4] ac yn gynharach gan Reoliadau'r Cymunedau Ewropeaidd (Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol) 2007 sy'n parhau i fod mewn grym mewn perthynas â'r Swistir.

[5] Erthygl 59 o Gyfarwyddeb 2005/36/EC

Nid yw'r Rheoliadau hyn yn ôl-weithredol ac felly dim ond mesurau a fydd yn dod i rym pan fydd y Rheoliadau mewn grym y bydd angen eu hasesu.

Yr Asesiad Cymesuredd

Mae'r adran hon yn esbonio'r termau a ddefnyddir yn y Rheoliadau, yn amlinellu rhwymedigaethau penodol ac yn nodi sut i gynnal yr asesiad.

Diffiniad o broffesiwn rheoleiddiedig at ddiben y Rheoliadau

Dim ond i ddarpariaethau rheoleiddiol proffesiynol mewn perthynas â phroffesiynau addysgu a gofal cymdeithasol penodol y mae'r Rheoliadau'n gymwys, fel y nodir yn Rheoliad 3 o'r Rheoliadau. Er eglurder, y rhain yw:

- Athro cymwysedig neu athrawes gymwysedig (o fewn yr ystyr a roddir i “qualified teacher” gan adran 132 o Ddeddf Addysg 2002) yng Nghymru
- Pennaeth (o fewn yr ystyr a roddir i “head teacher” gan adran 135 o Ddeddf Addysg 2002) yng Nghymru
- Athro neu athrawes mewn sefydliad addysg bellach (o fewn yr ystyr a roddir i “further education institution” gan adran 140 o Ddeddf Addysg 2002) yng Nghymru
- Unrhyw broffesiwn a reoleiddir o dan Ran 4 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

Diffiniad o reoleiddwyr a'u rôl

Mae'r rheoleiddwyr yn gyfrifol am gyflwyno'r mesur sy'n cyfyngu ar fynediad i broffesiwn rheoleiddiedig, fel y'i diffinnir uchod, neu ddilyn y proffesiwn hwnnw. Nid yw'r Rheoliadau'n defnyddio'r term “y rheoleiddwyr”, yn hytrach nodir mai Gweinidogion Cymru sy'n gyfrifol am gynnal asesiad cymesuredd mewn perthynas â darpariaethau rheoleiddiol proffesiynol. Fodd bynnag, mae Gweinidogion Cymru wedi dirprwyo eu rhwymedigaethau i reoleiddio proffesiynau addysgu a gofal cymdeithasol i'r rheoleiddwyr, ac felly'r rheoleiddwyr fydd yn cynnal asesiadau cymesuredd sy'n gymwys i ddarpariaethau rheoleiddiol proffesiynol ar gyfer y proffesiynau a nodir uchod.

Mae'r rheoleiddwyr yn gyfrifol am y canlynol: ymgymryd ag asesiadau cymesuredd mewn perthynas â “darpariaethau rheoleiddiol proffesiynol” maent yn eu cyflwyno yn unol â'r Rheoliadau; sicrhau eu bod yn bodloni'r gofynion o ran gwybodaeth i'r cyhoedd ac ymgynghori; ac anfon yr asesiad terfynol ymlaen i'r Comisiwn.

Cyfeirir at y ‘mesurau’ hyn fel “darpariaethau rheoleiddiol proffesiynol” yn y Rheoliadau a gallant olygu cyflwyno mesurau newydd neu ddiwygio mesurau.

Diffiniad o ddarpariaeth reoleiddiol broffesiynol

At ddiben y Rheoliadau hyn, ystyr “darpariaeth reoleiddiol broffesiynol” yw:

- darpariaeth ddeddfwriaethol, reoleiddiol neu weinyddol newydd; neu
- ddiwygiad i ddarpariaeth ddeddfwriaethol, reoleiddiol neu weinyddol bresennol

sy’n cyfyngu ar fynediad i broffesiwn rheoleiddiedig neu ddilyn y proffesiwn hwnnw.

Bydd angen i reoleiddwyr ddyfarnu a allai mesur arwain, hyd yn oed yn anfwriadol, at gyfyngu ar fynediad.

Er nad yw'n rhestr hollgynhwysfawr, mae'r mesurau canlynol yn enghreifftiau o'r mathau o fesurau a allai gael yr effaith hon o bosibl:

- Cyflwyno proffesiwn rheoleiddiedig newydd (gwneud proffesiwn nad yw'n rheoleiddiedig ar hyn o bryd yn ddarostyngedig i reoliadau);
- Darpariaethau sy'n diwygio gofynion presennol, er enghraifft gofynion addysg neu brofiad sylfaenol gorfodol, neu gyflwyno profion dawn neu eu diwygio;
- Gofyniad i gofrestru neu ymaelodi â sefydliad;
- Darpariaethau sy'n cyflwyno ffioedd neu'n cynyddu unrhyw ffioedd a godir eisoes;
- Darpariaethau sy'n cyflwyno neu'n addasu gofyniad i ddarparu dogfennaeth;
- Gofynion sy'n benodol i ddarparu gwasanaethau dros dro neu'n achlysurol, megis datganiadau gorfodol ymlaen llaw pan fydd y darparwr gwasanaeth yn symud i'r wlad am y tro cyntaf; neu
- Gyflwyno neu newid gofynion iaith.

Mae rhai mesurau a fydd o bosibl yn bodloni'r diffiniad o ddarpariaethau rheoleiddiol proffesiynol ond nad ydynt wedi'u cwmpasu gan y Rheoliadau hyn. Mae'r rhain wedi'u hamlinellu yn yr adran ganlynol.

Cwmpas

Mae'r Rheoliadau (ac felly'r gofyniad i gynnal asesiad cymesuredd) yn gymwys i “ddarpariaethau rheoleiddiol proffesiynol” fel y nodir uchod; darpariaethau rheoleiddiol proffesiynol mewn perthynas â'r proffesiynau addysgu a gofal cymdeithasol a nodir yn rheoliad 3 o'r Rheoliadau. Mae'r eithriadau wedi'u nodi isod.

Nid yw'r Rheoliadau yn gymwys i ddarpariaethau rheoleiddiol proffesiynol lle nad yw deddfwriaeth yr UE yn rhoi unrhyw ddewis o ran sut y caiff y darpariaethau hynny eu cymhwyso yn y DU. Er enghraifft, lle mae cyfraith yr UE yn gosod gofynion hyfforddiant sylfaenol ar gyfer proffesiwn, ni fyddai rhwymedigaeth i asesu cymesuredd y gofynion hyn.

Nid ydynt ychwaith yn gymwys i ddarpariaethau rheoleiddiol proffesiynol (mewn perthynas â'r proffesiynau hynny) sy'n gweithredu gofynion deddfwriaeth yr UE sy'n ymwneud â rheoleiddio proffesiwn, lle nad oes unrhyw ddewis o ran sut y caiff y darpariaethau hynny eu cymhwyso yng nghyfraith y DU.

Yr asesiad

Cyn y gellir cyflwyno darpariaeth reoleiddiol broffesiynol, mae'n rhaid i'r rheoleiddwyr asesu cymesuredd y ddarpariaeth honno er mwyn sicrhau nad yw'n cyfyngu'n anghymesur ar fynediad i broffesiwn rheoleiddiedig neu ddilyn y proffesiwn hwnnw. Mae'r Rheoliadau yn amlinellu fframwaith manwl ar gyfer asesu a yw mesur yn gymesur.

Er mwyn sicrhau cymesuredd, mae'n rhaid i'r ddarpariaeth reoleiddiol broffesiynol fodloni'r egwyddorion canlynol:

- rhaid iddi beidio â gwahaniaethu;
- rhaid iddi gael ei chyfiawnhau gan amcanion budd y cyhoedd;
- rhaid iddi fod yn addas ar gyfer cyflawni'r amcan a geisir ac ni chaiff fynd y tu hwnt i'r hyn sy'n angenrheidiol i gyflawni'r amcan hwnnw

Mae'n rhaid cynnal yr asesiad mewn modd gwrthrychol ac annibynnol a dylai gael ei gadarnhau gan elfennau ansoddol a, lle y bo'n bosibl, elfennau meintiol perthnasol. Dylai graddau a manylder yr asesiad fod yn gymesur â natur a graddau'r ddarpariaeth reoleiddiol broffesiynol sy'n cael ei hasesu.

Bydd yn rhaid i'r asesiad terfynol:

- nodi sut mae amcan budd y cyhoedd yn cyfiawnhau'r ddarpariaeth reoleiddiol broffesiynol a'r ffordd y mae'n cydymffurfio â'r egwyddor cymesuredd;
- cael ei gyhoeddi cyn cyflwyno'r ddarpariaeth reoleiddiol broffesiynol;
- cael ei gyflwyno i'r Comisiwn Ewropeaidd yn unol â'r weithdrefn a nodir isod.

Nid oes templed penodol i reoleiddwyr ei ddefnyddio er mwyn cwblhau'r asesiad: gall rheoleiddwyr ddefnyddio asesiadau polisi presennol er mwyn bodloni gofynion y Rheoliadau, ar yr amod eu bod yn cwmpasu'r holl feysydd gofynnol.

Amcan Budd y Cyhoedd
Mae'r adrannau canlynol yn nodi'r ffactorau y dylai rheoleiddwyr eu hystyried wrth gynnal asesiad cymesuredd. Mae'n rhaid i ddarpariaethau rheoleiddiol proffesiynol gael eu cyfiawnhau gan amcan budd y cyhoedd dilys, yn unol â'r egwyddorion cymesuredd a nodir yn y Rheoliadau, ac ni chânt fynd y tu hwnt i'r hyn sy'n angenrheidiol i gyflawni'r amcan hwnnw.

Cyfiawnhad
Mae'n rhaid i'r ddarpariaeth reoleiddiol broffesiynol arfaethedig gael ei chyfiawnhau'n wrthrychol gan un neu fwy o'r amcanion budd y cyhoedd canlynol:

- polisi cyhoeddus;
- diogeledd y cyhoedd
- iechyd y cyhoedd; neu
- resymau tra phwysig er budd y cyhoedd.

Bydd angen i reoleiddwyr esbonio pam mae'r ddarpariaeth reoleiddiol broffesiynol arfaethedig yn dod o dan un o'r categorïau hyn a'r ffordd mae'n bodloni'r amcan hwnnw. Mae enghreifftiau o'r mathau o amcanion a fyddai'n cyfrif fel amcanion budd y cyhoedd yn cynnwys y canlynol (ond nid ydynt yn gyfyngedig iddynt):

- cynnal cydbwysedd ariannol y system nawdd cymdeithasol;
- diogelu defnyddwyr, derbynyddion gwasanaethau a gweithwyr;
- diogelu bod cyfiawnder yn cael ei weinyddu'n briodol;
- sicrhau tegwch o ran trafodiadau masnach;
- brwydro yn erbyn twyll ac atal efadu trethi ac osgoi trethi, a diogelu effeithiolrwydd goruchwyliaeth gyllidol;
- diogelwch trafnidiaeth;
- diogelu'r amgylchedd a'r amgylchedd trefol;
- iechyd anifeiliaid;
- diogelu eiddo deallusol;
- amddiffyn y dreftadaeth hanesyddol a chelfyddydol genedlaethol a'i chadwraeth;
- amcanion polisi cymdeithasol; neu
- amcanion polisi diwylliannol.

Mae'r enghreifftiau hyn wedi'u rhestru yn rheoliad 6(3) o'r Rheoliadau.

Ni fydd mesur sy'n ymdrin â rhesymau economaidd neu weinyddol yn unig yn bodloni'r prawf budd y cyhoedd. Fodd bynnag, gall mesur gael dibenion economaidd neu weinyddol os caiff ei gyfiawnhau gan un neu fwy o'r amcanion a ddisgrifir uchod hefyd.

Peidio â gwahaniaethu

Ni chaiff y ddarpariaeth reoleiddiol broffesiynol wahaniaethu'n uniongyrchol nac yn anuniongyrchol yn erbyn dinasyddion yr UE ar sail cenedligrwydd neu breswylfa. Mae hyn yn golygu na ellir trin dinasyddion yr UE yn llai ffafriol na gwladolion y DU mewn perthynas ag effaith darpariaeth reoleiddiol broffesiynol. Dylai rheoleiddwyr asesu'n ofalus a allai darpariaeth wahaniaethu'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ar y sail hon. Er enghraifft, ni ddylai rheoleiddwyr gyflwyno mesurau na fyddai gwladolyn neu breswylydd Aelod-wladwriaeth benodol yn yr UE yn gallu cydymffurfio â nhw, neu y byddai'n ei chael hi'n anoddach cydymffurfio â nhw o gymharu â gwladolyn y DU.

Egwyddorion cymesuredd

Yn ogystal â nodi'r ffordd y mae un neu fwy o amcanion budd y cyhoedd yn cyfiawnhau'r ddarpariaeth reoleiddiol broffesiynol, mae'n rhaid i'r asesiad hefyd sicrhau bod y ddarpariaeth yn addas ar gyfer cyflawni'r amcan hwnnw ac nad yw'n mynd y tu hwnt i'r hyn sy'n angenrheidiol i gyflawni'r amcan hwnnw (e.e. bod y ddarpariaeth yn gymesur â'i nod).

Wrth asesu a yw darpariaeth reoleiddiol broffesiynol yn gymesur, dylai rheoleiddwyr esbonio sut y mae'r ddarpariaeth yn cydymffurfio â phob un o'r

egwyddorion cymesuredd canlynol (a nodir yn fanylach yn rheoliad 7 o'r Rheoliadau):

- natur y risgiau sy'n ymwneud â'r amcanion budd y cyhoedd a geisir, ac a yw'r ddarpariaeth reoleiddiol broffesiynol arfaethedig yn mynd i'r afael â'r risgiau hyn;
- a yw'r rheolau presennol yn ddigonol i gyflawni'r amcan a geisir gan olygu bod y mesur newydd yn ddiangen;
- pa mor briodol yw'r ddarpariaeth reoleiddiol broffesiynol i gyflawni'r amcan a geisir ac a yw'r ddarpariaeth reoleiddiol broffesiynol yn adlewyrchu'n wirioneddol yr amcan hwnnw mewn modd cyson a systematig;
- effaith ar symudiad rhydd personau, dewis defnyddwyr ac ansawdd y gwasanaeth;
- y posibilrwydd o ddefnyddio dulliau llai cyfyngol i gyflawni'r amcan;
- effaith y ddarpariaeth reoleiddiol broffesiynol pan fydd wedi ei chyfuno â darpariaethau eraill;
- cwmpas y gweithgareddau sydd wedi eu neilltuo i broffesiwn a'r cysylltiad rhwng cymwysterau a'r gweithgareddau;
- gofynion penodol yn ymwneud â darparu gwasanaethau dros dro neu'n achlysurol;
- diogelu iechyd dynol pan fo darpariaethau rheoleiddiol proffesiynol yn ymwneud â rheoleiddio gweithwyr gofal iechyd proffesiynol.

Wrth reoleiddio proffesiynau a darpariaethau gofal iechyd sydd â goblygiadau i iechyd cleifion, dylai rheoleiddwyr roi pwyslais penodol ar yr egwyddor o sicrhau lefel uchel o ddiogelwch iechyd dynol.

Amseru
Mae'n rhaid cynnal yr asesiad cyn cyflwyno'r ddarpariaeth reoleiddiol broffesiynol. Mae'n rhaid rhoi'r cyfle i randdeiliaid perthnasol wneud sylwadau ar y mesur cyn iddo gael ei gyflwyno.

Mae dyletswydd barhaus i fonitro a yw darpariaethau rheoleiddiol proffesiynol yn parhau i fod yn briodol i'w nodau ar ôl iddynt gael eu rhoi ar waith. Felly mae'n rhaid i reoleiddwyr ystyried a yw datblygiadau ar ôl rhoi darpariaeth ar waith yn effeithio ar ei chymesuredd. Er enghraifft, gallai newid mewn deddfwriaeth sy'n ymwneud â phroffesiwn rheoleiddiedig penodol effeithio ar gymesuredd darpariaeth. Mewn achos o'r fath, byddai angen i'r rheoleiddiwr ddiwygio ei asesiad ac ystyried a yw'r ddarpariaeth yn gymesur o hyd yng ngoleuni'r ddeddfwriaeth newydd.

Graddau asesiad
Mae'n rhaid i raddau'r asesiad fod yn gymesur â natur, cynnwys ac effaith y darpariaethau arfaethedig. Felly bydd angen cynnal asesiad ehangach mewn perthynas â mesur sydd ag effaith sylweddol ar fynediad i broffesiwn rheoleiddiedig neu ddilyn y proffesiwn hwnnw, o gymharu â mesur sy'n cyflwyno newid bach.

Gwybodaeth i’r cyhoedd ac ymgynghori

Gwybodaeth i’r cyhoedd

Mae'n rhaid i reoleiddwyr gyhoeddi gwybodaeth am y ddarpariaeth reoleiddiol broffesiynol arfaethedig cyn iddi gael ei chyflwyno. Dylid darparu esboniad gyda'r wybodaeth hon sy'n crynhoi diben ac effaith y ddarpariaeth reoleiddiol arfaethedig ac sy'n ddigonol er mwyn asesu cymesuredd y ddarpariaeth reoleiddiol broffesiynol. Dylai'r cyhoedd allu cael gafael ar y wybodaeth hon, ynghyd â derbynyddion gwasanaeth a rhanddeiliaid perthnasol.[6]

Ymgynghori

Mae'n ofynnol i reoleiddwyr ymgynghori â rhanddeiliaid (er nad yw hyn yn ymestyn i rwymedigaeth gyffredinol i ymgynghori â'r cyhoedd). Mae'n arfer dda ymgysylltu â rhanddeiliaid a derbynyddion gwasanaeth er mwyn deall gwir effaith y mesur arfaethedig ar y bobl yr effeithir arnynt, ac i ystyried sut y gellir lliniaru unrhyw ganlyniadau anfwriadol.

Darparu gwasanaethau dros dro ac yn achlysurol

O dan y Rheoliadau, pan fo darpariaeth reoleiddiol broffesiynol yn cynnwys gofynion penodol sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau dros dro ac yn achlysurol, mae'n ofynnol bod y gofynion hyn hefyd yn cydymffurfio â'r egwyddor cymesuredd. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu bod angen cynnal asesiad cymesuredd llawn mewn perthynas â'r gofyniad penodol.

Yn hytrach, y cyfan y mae angen i reoleiddwyr ei wneud yw sicrhau bod gofynion megis darparu datganiad, aelodaeth pro forma o sefydliad neu gorff proffesiynol, datganiadau ymlaen llaw a dogfennau gofynnol yn gymesur, ynghyd â thalu ffi neu unrhyw daliadau sy’n ymwneud â darparu gwasanaethau dros dro ac yn achlysurol mewn proffesiwn rheoleiddiedig. Ni ddylai'r gofynion hyn arwain at faich anghymesur ar y darparwr gwasanaeth, amharu ar y gwasanaethau a ddarperir na'u gwneud yn llai deniadol.

Yn unol â hynny, pan fyddant yn cyflwyno darpariaeth reoleiddiol broffesiynol, dylai'r rheoleiddwyr ystyried a yw'n cynnwys unrhyw ofynion penodol mewn perthynas â darparu gwasanaethau dros dro neu'n achlysurol ac, os felly, sicrhau bod y gofynion hynny'n cydymffurfio â'r egwyddor cymesuredd. Er enghraifft, dylai rheoleiddwyr sicrhau bod gofynion i ddarparu rhai dogfennau a gwybodaeth (hyd yn oed os ydynt yn unol â'r Rheoliadau) yn gymesur, ac ystyried a fyddai'r posibilrwydd o gael rhagor o fanylion drwy gydweithrediad gweinyddol rhwng Aelod-wladwriaethau drwy IMI yn ddigonol yn lle hyn.

Adrodd

Gofynion adrodd domestig

Er nad yw'n ofynnol o dan y Rheoliadau, caiff rheoleiddwyr sy'n cyflwyno darpariaethau rheoleiddiol proffesiynol o fewn cwmpas y Rheoliadau eu hannog i adrodd i'r Gweinidog perthnasol.

Mae Atodiad 1 yn cynnwys templed rhestr wirio ar gyfer adrodd i'r Gweinidog.

[6] https://www.gov.uk/service-manual/helping-people-to-use-your-service/making-your-service-accessible-an-introduction

Hysbysu'r Comisiwn Ewropeaidd
O dan y Rheoliadau, mae'n rhaid i reoleiddwyr hysbysu'r Comisiwn Ewropeaidd pan fyddant yn cynnal asesiadau cymesuredd drwy lanlwytho'r asesiad i gronfa ddata Gwybodaeth y Farchnad Fewnol (“IMI”) yr UE drwy ffurflen safonol sydd ar gael ar y gronfa ddata.

Gwybodaeth Ychwanegol

Rhwymedi effeithiol

Mae'n rhaid i rwymedi effeithiol fod ar gael mewn perthynas â'r materion sydd wedi'u cwmpasu gan y Rheoliadau, gan gynnwys ar gyfer aelodau neu ddarpar-aelodau proffesiwn rheoleiddiedig sy'n herio cymesuredd mesur newydd neu fesur a ddiwygiwyd.

Gall hyn fod yn broses gwyno bresennol y rheoleiddiwr, neu gall y rheoleiddwyr ddewis creu proses ar wahân. Yn y naill achos neu'r llall, mae'n rhaid i'r broses fod yn deg ac yn ddiduedd a dylai fod yn hawdd i'r achwynydd ei defnyddio.

Os bydd pob opsiwn arall wedi'i ddihysbyddu, mae'n bosibl y bydd adolygiad barnwrol ar gael hefyd.

Cyfraith Achosion Ewropeaidd

Bydd unrhyw Lys Cyfiawnder ar gyfer cyfraith achosion yr Undeb Ewropeaidd sy'n berthnasol i ddehongliad y Rheoliadau hyn yn dal i fod yn berthnasol i'r graddau a nodir yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.

Hyd effeithiol

Mae'r Rheoliadau hyn yn gyfyngedig o ran amser. Byddant yn weithredol o'r dyddiad dod i rym tan ddiwedd y Cyfnod Pontio ac ni chânt eu cymhwyso'n ôl-weithredol. Felly ni fydd angen cynnal asesiad cymesuredd mewn perthynas â darpariaeth reoleiddiol broffesiynol sy'n dod i rym naill ai cyn i'r Rheoliadau fod yn weithredol neu ar ôl diwedd y Cyfnod Pontio.

Offerynnau Statudol

Gellir dod o hyd i gopi o'r Rheoliadau 2020 hyn yma:
https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2020/696/made

ATODIAD 1 Templed ar gyfer Adrodd

Gall rheoleiddwyr ddefnyddio'r templed hwn at ddiben gofynion adrodd domestig.

Pwy yw'r Rheoleiddiwr:

……

Beth yw'r ddarpariaeth reoleiddiol broffesiynol newydd neu'r ddarpariaeth reoleiddiol broffesiynol a gaiff ei diwygio:

……
……

Beth yw diben y ddarpariaeth reoleiddiol broffesiynol newydd neu'r ddarpariaeth reoleiddiol broffesiynol a gaiff ei diwygio:

……
……

Ar bwy y bydd y ddarpariaeth reoleiddiol broffesiynol newydd neu'r ddarpariaeth reoleiddiol broffesiynol a gaiff ei diwygio yn effeithio:

……
……

Y dyddiad y bydd y ddarpariaeth reoleiddiol broffesiynol newydd neu'r ddarpariaeth reoleiddiol broffesiynol a gaiff ei diwygio yn dod i rym:

……
……

Amcan(ion) Budd y Cyhoedd sy'n cyfiawnhau'r ddarpariaeth reoleiddiol broffesiynol newydd neu'r ddarpariaeth reoleiddiol broffesiynol a gaiff ei diwygio (ticiwch):

Polisi cyhoeddus ☐
Diogeledd y cyhoedd ☐
Iechyd y cyhoedd ☐
Rhesymau tra phwysig er budd y cyhoedd ☐
(rhowch fanylion)

Sut mae'r ddarpariaeth reoleiddiol broffesiynol yn bodloni Amcan(ion) Budd y Cyhoedd:

……
……
……

Egwyddorion Cymesuredd a ystyriwyd:

Nodwch sut yr ymdriniwyd â phob egwyddor

☐ Natur y risgiau sy'n ymwneud â'r amcanion budd y cyhoedd a geisir
……
……
……

☐ A yw'r rheolau presennol yn ddigonol i gyflawni'r amcan
……

☐ Pa mor briodol yw'r ddarpariaeth reoleiddiol broffesiynol i gyflawni'r amcan a geisir

……
……
……

☐ Effaith ar symudiad rhydd personau, dewis defnyddwyr ac ansawdd y gwasanaeth

……
……
……

☐ Y posibilrwydd o ddefnyddio dulliau llai cyfyngol i gyflawni'r amcan

……
……
……

☐ Effaith y ddarpariaeth reoleiddiol broffesiynol pan fydd wedi ei chyfuno â darpariaethau eraill

……
……
……

☐ Cwmpas y gweithgareddau sydd wedi eu neilltuo i broffesiwn a'r cysylltiad rhwng cymwysterau a'r gweithgareddau

……
……
……

☐ Gofynion penodol yn ymwneud â darparu gwasanaethau dros dro neu'n achlysurol

……
……
……

☐ Diogelu iechyd dynol

……
……
……

Sut y mae'r ddarpariaeth reoleiddiol broffesiynol yn cydymffurfio â'r egwyddor cymesuredd?

……
……
……

A yw'r Asesiad Effaith wedi cael ei gynnal? Os ydyw, beth oedd y canlyniadau? Os na, pam?

……
……
……

Rhowch fanylion ymarferion ymgynghori â rhanddeiliad a'u canlyniadau

……
……
……